

Mae Archifdy Ceredigion unwaith eto yn mentro i'r 'bandstand' i gyflwyno lluo o weithgareddau a digwyddiadau i hyrwyddo gwaith yr Archifdy yn ystod Wythnos Archwilio Eich Archif. Ein thema eleni yw 'Ein Tref'.

## **Amserlen gweithgareddau Wythnos Archwilio Eich Archif 2023**

### **27ain o Dachwedd – 3ydd o Ragfyr**

Byddwn ar agor yn y Bandstand 10.00-17.30 bob dydd, oni nodir fel arall. Bydd digon o bethau i'w gweld a'u profi!

- **Y Stryd Fawr** Archwilio hanes un o brif strydoedd Aberystwyth
- **Collage cymunedol: Creu Stryd** Ymunwch yn ein collage cymunedol drwy greu eich ty eich hun ar ein stryd ffuglennol.
- **Lliwio mewn Aberystwyth** Rhowch gynnig ar liwio mewn cardiau post o olygfeydd Aberystwyth. Yn seiliedig ar gardiau post go iawn o'n casgliadau.
- **Prosiect Deiseb Heddwch Merched Cymru** Dewch i ymweld â'r stondin i gael gwybodaeth am y prosiect a sut y gallwch chi gymryd rhan.
- **Cornel BALH** Gwybodaeth a deunyddiau gan Gymdeithas Hanes Lleol Prydain.

Eitemau ar werth, gan gynnwys cardiau Nadolig Archifdy Ceredigion a detholiad o hen arweinyfrau Aberystwyth.

Rhoddion amrywiol - cardiau post, matiau cwrw, llyfrynnau taith tref hanesyddol Archifdy Ceredigion ar gyfer oedolion a phobl ifanc.

Cyfle i siarad gyda archifwyr go iawn!

### **Amserlen sgysiau a gweithdai.**

#### **Dydd Llun 27/11 Agoriad 2pm**

15:00 Sesiwn Gofyn yr Archifydd gyda Helen Palmer Archifydd y Sir

#### **Dydd Mawrth 28/11**

12:00 Yr Heddlu, Y Wasg a'r Carchar: Troseddau Aberystwyth yn yr Archifdy – sgwrs gan yr hanesydd cyfreithiol Richard Ireland.

14:00 Beth Sy'n Dda am Archifau? Sgwrs gan Bob Bennett, Aelod o Dîm Gwasanaeth Archifau, Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion Ceredigion.

15:00 Beth sydd yn y Bocs? Dewch i Archwilio Archifau Ceredigion - sgwrs gan Archifydd y Sir, Helen Palmer.

## **Dydd Mercher 29/11**

11:00 'Ydi chi wedi clywed am yr Archifdy?' sgwrs gan Mair Humphreys, Archifydd a Rheolwr Cofnodion.

12:00 Desg Gymorth Hanes Tai (dwyieithog) gyda Tamzin Craine, Archifydd a Rheolwr Cofnodion.

14:00 Sesiwn Gofyn yr Archifydd (dwyieithog) gyda Mair Humphreys, Archifydd a Rheolwr Cofnodion.

## **Dydd Iau 30/11**

11:00 Prosiect Deiseb Heddwch Merched Cymru - sgwrs gan Sian Howys, Swyddog Allgymorth Gymunedol

14:00 Sesiwn Gofyn yr Archifydd (dwyieithog) gyda Ania Skarżynska, Uwch Archifydd

19:00 'Three Legg'd Mare: Noson o gerddoriaeth werin i ddatlu Wythnos Archwiliwch eich Archif. Digwyddiad rhad ac am ddim â thocynnau (tocynnau ar gael trwy Eventbrite, gweler ein tudalen Facebook/Twitter am ragor o fanylion)

## **Dydd Gwener 01/12**

11:00 Mae Gennym Gynllun: Darganfod cynlluniau adeiladau Aberystwyth – sgwrs gan Ania Skarżynska, Uwch Archifydd

14:00 Orlhain Hanes Eich Ty – sgwrs gan Helen Palmer, Archifydd y Sir.

15:00 Gofalu am Eich Dogfennau – sesiwn anffurfiol gyda Helen Palmer, Archifydd y Sir.

## **Dydd Sadwrn 02/12**

12:00 Ydych chi wedi clywed am yr Archifdy? Swrs (yn Gymraeg) gan Mair Humphreys, Archifydd a Rheolwr Cofnodion

14:00 Hen Fapiau yn Archifdy Ceredigion – sgwrs gan Ania Skarżynska, Uwch Archifydd

## **Dydd Sul 03/12 (cau am 4pm)**

11:00 Gweithgaredd Plant – Collage Eich Ty

12:00 Beth sydd yn y Bocs? Dewch i Archwilio Archifau Ceredigion - sgwrs gan Archifydd y Sir, Helen Palmer

14:00 Sesiwn Gofyn yr Archifydd gyda Helen Palmer Archifydd y Sir



Archifdy  
Ceredigion  
Archives